

## newyddion Cymraeg ColegauCymru #178 24 Mawrth 2015

**Croeso i e-newyddion ColegauCymru yn y Gymraeg - ac ymddiheuriadau am ei gyhoeddi ddiwrnod yn hwyr yr wythnos hon, diolch i faterion technegol.**

**Welcome to Welsh language edition of the CollegesWales e-news - and apologies for publishing a day late this week, thanks to technical issues.**

Rydyn ni wrthi ar hyn o bryd yn diweddarau ac yn mireinio'r bas-data o danysgrifwyr. Os ydych yn darllen copi sydd wedi ei anfon atoch gan rywun arall, ac hoffech danysgrifio eich hun, da chi [Cysylltwch](#).

We are in the process of updating and perfecting our database of subscribers. Do please [let us know](#) if you would like to remove your name from the Welsh-medium subscription.

### Materion Strategol

#### Cynhadledd Flynyddol ColegauCymru 2015: Atebion Creadigol Mewn Amser Caled

Ar: Ddydd Iau 21 Mai 2015

Yn: Venue Cymru, Llandudno

Bydd cynhadledd eleni yn ffocysu ar ganfod atebion creadigol mewn hinsawdd ariannol anodd. Cawn glywed o'r byd busnes yn ogystal â thrin a thrafod arferion da o golegau yng Nghymru a thu hwnt, gan glywed oddi wrth nifer o sefydliadau sydd wedi ennill gwobrau uchel eu parch.

[Mwy>>>](#)

#### Coleg yn Gwesteia ar Gynhadledd Sgiliau Sector Ewropeaidd

Grŵp Llandrillo Menai oedd y lleoliad ddewiswyd i lansio'r Diploma Uwch Ewropeaidd newydd ym maes Twristiaeth ac Arlwyyo yr wythnos diwethaf, fel rhan o gyfarfod bedwar diwrnod 'Eurhodip', lle bu 36 o gynrychiolwyr o bob rhan o Ewrop yn trafod y system addysg a hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer twristiaeth ac arlwyyo ar draws Ewrop.

[Mwy>>>](#)

#### Sicrhau cyllid y llywodraeth ar gyfer siwrnai dysgwyr

Coleg Caerdydd a'r Fro yw'r sefydliad addysg bellach cyntaf i dderbyn benthyciad Buddsoddi i Arbed / Invest to Save gan Lywodraeth Cymru.

Bydd y Coleg yn derbyn £775,000 i fwrw ymlaen â'i brosiect Siwrnai'r Dysgwr.

[Mwy>>>](#)

---

## Dilyniant Myfyrwyr

### Gwobr Niwclear i Hatti

Cyn-fyfyriwr Coleg Sir Benfro Hatti Sonley sydd wedi ennill Prentis y Flwyddyn y Gadwyn Gyflenwi Niwclear yn seremoni wobrwyo yr Academi Sgiliau Cenedlaethol ar gyfer Niwclear.

[Mwy>>>](#)

---

### Cyfle yn Awstralia i gricedwr o goleg yng Nghymru

Mae seren criced addawol – a myfyriwr Coleg Gŵyr Abertawe - Aneurin Donald ar ei ffordd i Awstralia ar ôl cael ei ddewis ar gyfer taith Rhaglen Datblygu Lloegr (EDP).

[Mwy>>>](#)

---

### Cynigion Rhydychen a Chaergrawnt i ddysgwyr y Cymoedd

Mae tri o ddysgwyr Canolfan Lefel A Coleg y Cymoedd wedi derbyn cynigion i astudio ym Mhrifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt. Ffiseg, gwyddoniaeth biofeddygol a'r gyfraith yw eu dewisiadau prifysgol. Llongyfarchwyd y dysgwyr gan Julie James, Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg pan fu ar ymweliad â Champws Nantgarw.

[Mwy>>>](#)

---

### Lleoliad gwaith yn Tanzania, yna gartref i swydd gadarn

Fis Awst eleni, bydd Sioned Thompson, sy'n astudio gofal plant yng Ngholeg Sir Gâr, ar leoliad gwaith pedair wythnos o hyd mewn ysbyty yn Nhanzania trwy fenter gwirfoddoli Gap Medics, cyn dechrau gwaith fel nyrs gynorthwyol yng Nghaerfyrddin ar ôl iddi orffen yn y coleg.

[Mwy>>>](#)

---

## Llongyfarchaidau! Llwyddiant Dysgwyr

### Dysgwyr cyswllt ysgolion yn gwneud yn dda mewn cystadleuaeth genedlaethol

Cynhaliwyd rownd derfynol yr AHT (Cymdeithas y Trinwyr Gwallt a Therapyddion) yn Blackpool, lle dyfarnwyd dwy o ddysgwyr rhaglen gyswllt ysgolion Coleg y Cymoedd ymhlith y pedwar gorau yn y D.U.

[Mwy>>>](#)

---

### Enillydd: Cystadleuaeth atgyweirio corff ceir terfynol Cymru

Jack Linstead, myfyriwr NVQ o Goleg Gwent, yw enillydd rownd derfynol Cystadleuaeth Sgiliau Cymru lefel ganolradd atgyweirio corff ceir. Bydd e'n mynd ymlaen i gystadlu yn Worldskills UK.

[Mwy>>>](#)

---

## **Cystadleuaeth Sgiliau Cymru: gwelliannau ewinedd**

Carly Stirling o Goleg Sir Gâr yw enillydd Cystadleuaeth Sgiliau Cymru mewn gwelliannau ewinedd - lefel uwch.

[Mwy>>>](#)

---

## **Enillydd Cystadleuaeth Gosodiadau Trydanol**

Bydd myfyrwyr Coleg Gwent Daniel Griffin yn cystadlu yn y Gystadleuaeth Gosod Trydan WorldSkills UK a gynhelir yn ddiweddarach eleni yn dilyn ei fuddugoliaeth yn ddiweddar yn rownd Cymru gyfan.

[Mwy>>>](#)

---

## **Cystadleuaeth Sgiliau Cymru: Cerddoriaeth Boblogaidd**

Gower College Swansea won gold and bronze at the recent SkillsCompetition Wales Popular Music regional heat. Enillodd myfyrwyr cerddoriaeth o Goleg Gŵyr Abertawe y wobr aur a'r wobr efydd yng nghymal rhanbarthol Cerddoriaeth Boblogaidd Cystadleuaeth Sgiliau Cymru yn ddiweddar.

[Mwy>>>](#)

---

## **Colegau'n Gweithio Gyda Busnes**

### **Partneriaeth prentisiaeth rhwng Debenhams a Grŵp Llandrillo Menai**

Dathlwyd y bartneriaeth rhwng Academi Sgiliau Manwerthu Grŵp Llandrillo Menai a Debenhams gyda seremoni i adnabod prentisiaid sydd wedi llwyddo i gyflawni eu framweithiau prentisiaeth.

[Mwy>>>](#)

---

## **Dathlu Wythnos Prentisiaid gyda Chyflogwyr Lleol**

Ymunodd Coleg Gŵyr Abertawe â'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes a Chyflogaeth Hyfforddiant (LLETS) a 96.4FM The Wave i ddathlu Wythnos Prentisiaid 2015 gydag ystod o gyflogwyr lleol.

[Mwy>>>](#)

---

## **Cefnogaeth cyflogadwyedd gan gyflogwyr**

Ymunodd Tata Steel, Prifysgol Abertawe a'r Lluoedd Arfog gyda Coleg Gŵyr Abertawe yn ddiweddar i gynnig cyfweiliadau ffug i fyfyrwyr peirianeg.

[Mwy>>>](#)

---

## Cyfleoedd Dysgu

### Myfyrwyr creadigol ar y catwalk

Cyflwynwyd sioe a hanner i gynulleidfa yng Nghampws Crosskeys Coleg Gwent yn ddiweddar gan fyfyrwyr Trin Gwallt, y Theatr a'r Cyfryngau gyda chreadigaethau trawiadol wedi eu creu gyda gwallt, colur a phaent corff, oll wedi eu hysbrydoli gan thema Ethereal a Thywyll mewn digwyddiad ar y catwalk.

[Mwy>>>](#)

---

### Cwestiynau ar gyfer AS yn ystod ymweliad â Choleg Ceredigion

Yn ddiweddar ymwelodd yr AS Mark Williams â myfyrwyr Mynediad Galwedigaethol yng Ngholeg Ceredigion er mwyn rhoi cipolwg i'w waith ac i ateb cwestiynau a ofynnwyd gan fyfyrwyr.

[Mwy>>>](#)

---

### Gweithdy gyda ffigurau blaenllaw y diwydiant cerddoriaeth

Mae myfyrwyr Technoleg Cerddoriaeth o Goleg Gŵyr Abertawe wedi cael cyfle arbennig i glywed oddi wrth weithwyr proffesiynol y diwydiant mewn gweithdy arbennig oedd yn cynnwys Dan Thomas o enwogrwydd Simply Red a chyflwynydd radio BBC ac awdur Adam Walton.

[Mwy>>>](#)

---

### Wythnos Gymraeg

Dathlwyd Wythnos Gymraeg yng Ngholeg Sir Gar eleni gyda mwy na 60 o weithgareddau gan gynnwys cyflwyniad gan gyflogwr a dyn busnes lleol i dynnu sylw at y manteision o ddefnyddio iaith ychwanegol ym myd gwaith, corau, dawnio gwerin, perfformiadau gan fyfyrwyr a chystadlaethau.

[Mwy>>>](#)

---